| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **DYDDIAD:** | 16 Ebrill 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL A SEFYDLIAD:** | Cyng. Hugh H Evans, Arweinydd: Cyngor Sir Ddinbych |
| **SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:** | Iolo McGregor, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol, Cyngor Sir Ddinbych |
| **TESTUN:** | Arian Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru 2018-19 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am y grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) i ranbarth Gogledd Cymru yn 2018-19, a sut mae'r arian wedi'i ddyrannu ar draws y pedwar maen prawf a nodir gan LlC. (Atodiad I).

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Bwriad yr Arian yw cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt symud i'r cam o ddarparu eu Cynlluniau Lles lleol, ac i barhau i gynorthwyo gydag atgyfnerthu gwaith ar asesiadau lles lleol a chynlluniau lleol.

2.2 Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru (gyda chefnogaeth swyddogion), wedi ystyried sut y gellir defnyddio'r arian hwn i adeiladu capasiti strategol a'r capasiti i gefnogi Cynlluniau Lles ac Asesiadau o Les Lleol. Mae arian wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

| **Crynodeb o'r Cynnig** | **Amserlen ddisgwyliedig** | **Swm** |
|---|---|---|
| Ymgysylltiad â'r gymuned sy'n barhaus ac wedi'i gydlynu | 01/04/18 - 31/03/19 | £20,000 |
| Annerch bylchau mewn sail dystiolaeth | 01/04/18 - 31/12/18 | £30,000 |
| Argaeledd data amser real | 01/04/18 - 31/03/19 | £13,117 |
| Monitro ac adolygu cynnydd | 01/04/18 - 31/03/19 | £20,000 |
| **Cyfanswm y Grant a ddyfarnwyd** | | **£83,117** |

## 3. ARGYMHELLIAD(ION)/ OPSIYNAU

3.1 Bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darllen ac yn deall yr adroddiad, ac yn cymryd sylw yn enwedig o'r symiau sydd ar gael a'r meini prawf (Atodiad II) sy'n gymwys.

3.2 Bod gan aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cyfle i awgrymu meysydd o waith y gellir eu datblygu gyda'r arian cefnogi sydd ar gael. Gall y gwariant yn erbyn y grant fod yn

eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y gellir darparu diweddariadau, ac ystyriaeth yn cael ei rhoi i feysydd a fyddai'n elwa o'r buddsoddiad.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Fel y blynyddoedd diweddar, cynigir arian ar ôl troed bwrdd iechyd, gydag £83,117 ar gael i Ranbarth Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2018-19. Mae Cyngor Sir Ddinbych, fel yr awdurdod arweiniol, wedi gweithio gyda Swyddogion Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru i gyflwyno'r cynnig amgaeedig ar gyfer 2018-19.

4.2 Ni ellir defnyddio'r arian ar gyfer:

- datblygu neu gynnal prosiectau penodol a ddewisir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac eithrio fel rhan o ddarparu'r cynllun lles neu atgyfnerthu'r asesiad neu'r cynllun;
- cefnogaeth bartneriaeth gyffredinol.

4.3 Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn monitro cynnydd y gwaith a ariennir, gan sicrhau rheolaethau ariannol digonol. Bydd tanwariant a gorwariant yn cael eu monitro'n benodol gan yr awdurdod arweiniol, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi drwy Rwydwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

4.4 Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu rhoi i LlC, yn dangos sut mae amcanion yn cael eu bodloni, a sut mae'r gwaith sy'n cael ei ariannu yn ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

4.5 Bydd cyfnod yr arian o 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019, gyda'r arian yn cael ei dalu mewn un rhandaliad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod ariannu, wrth gwblhau ffurflen hawlio foddhaol. Gyda chytundeb gan yr awdurdod arweiniol, bydd partneriaid yn derbyn bil i ddechrau ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei wneud, yna'n anfonebu Cyngor Sir Ddinbych am y cyfanswm sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at iolo.mcgregor@denbighshire.gov.uk.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Trafodwyd y cynnig i ddechrau yng nghyfarfod Rhwydwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru 15 Ionawr, ac fe'i trafodwyd wedyn ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 29 Ionawr. Rhannwyd cynnig drafft ar gyfer adborth gyda phob un o'r swyddogion cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fe'i trafodwyd yng nghyfarfod Rhwydwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru 7 Mawrth. Yna rhannwyd y cynnig gyda phob cadeirydd o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael sylwadau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru 16 Mawrth. Disgwylir cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn fuan.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae rheolaeth o'r arian cefnogi'n cael ei chynnwys drwy gapasiti presennol o fewn Cyngor Sir Ddinbych, yn dilyn stiwardiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r grant dros y ddwy flynedd diwethaf.

6.2 Gall prosiectau unigol sy’n cael eu rhoi ar waith fel rhan o’r cynnig ariannu gael goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau, y byddai angen bod yn destun asesiad effaith os cânt eu datblygu.

**7. RISG**

7.1 Mae yna risg o or-wariant gyda’r grant hwn, a fyddai’n debygol o arwain at ddyled ariannol i bartneriaid.
Mae yna risg o danwario’r grant hwn, y gellid bod yn arwydd o gyfleoedd coll i’r rhanbarth.

**8. CYMHELLION A GOBLYGIADAU**

8.1 Mae’r arian cefnogi hwn ar gael i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni eu hymrwymiadau mewn perthynas â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol, ei nod yw cynorthwyo gyda datblygu cynlluniau lles, a’r datblygiad parhaus a chynnal asesiadau lles lleol.

8.2 Os byddwn yn llwyddo, rydym yn disgwyl gweld:

- Bod ein hasesiadau o les llesol yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hawdd eu defnyddio, o leiaf mewn perthynas â’r meysydd blaenoriaeth y mae’r Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi’u gosod.
- Cyfranogiad gweithgar ac ystyrlon rhanddeiliaid, yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Dealltwriaeth glir o’r prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd.
- Bod cynlluniau lles a’r camau ynddynt yn cael eu cyfathrebu’n glir a’u deall gan randdeiliaid, gan osgoi dyblygu.
- Bod camau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i gefnogi amcanion lles wedi’u llywio gan dystiolaeth ac arfer gorau.

**9. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

9.1 Mae’r cynnig sydd wedi’i ddatblygu ar lefel uchel ac yn eang yn fwriadol, i gynnwys pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhanbarth Gogledd Cymru. Mae gwaith pellach nawr yn ofynnol gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu cynigion penodol ar gyfer gwario’r arian cefnogi.

| PAPURAU CEFNGDIR | LLEOLIAD |
|---|---|
| Cynnig Ariannu BGCau Gogledd Cymru 2018-19 | Atodiad I |
| Meini prawf: Cefnogaeth ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 2018-19 | Atodiad II |